## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â falfiau meitrol â nam arnynt, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae'r llawdriniaeth yn anodd, felly mae NICE wedi argymell y dylai llawfeddygon feddu ar yr arbenigedd arbennig a hyfforddiant penodol mewn cyflawni llawdriniaeth ar y galon sy'n defnyddio'r math hwn o lawdriniaeth twll clo. Dylai llawfeddygon gyflawni'r driniaeth hon gyda mentor profiadol nes eu bod yn arbenigwyr.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer trwsio falf mitrol â nam arni. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Llawdriniaeth twll clo i drwsio falf feitrol â nam arni

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae gan y galon bedair falf sy'n cadw gwaed i lifo yn y cyfeiriad cywir o amgylch y corff. Mae gwaed sy'n llawn ocsigen yn llifo o'r ysgyfaint a thrwy'r falf feitrol i brif siambr pwmpio'r galon, y fentrigl chwith. Wrth i'r galon wasgu, mae'r falf feitrol yn cau fel nad yw'r gwaed yn llifo yn ôl i'r ysgyfaint.

Weithiau, mae'r falf feitrol yn peidio â gweithio'n iawn. Gall ollwng, gan ganiatáu i waed lifo yn ôl i'r ysgyfaint. Mae hyn yn achosi prinder anadl ac, yn y pen draw, methiant y galon (pan na all eich calon bwmpio digon o waed i ddiwallu anghenion eich corff). Yn llai aml, efallai na fydd

y falf feitrol yn agor yn iawn a gall hyn atal gwaed rhan llifo i mewn i'r galon o'r ysgyfaint, gan achosi prinder anadl a methiant y galon eto.

Yn draddodiadol, caiff falf feitrol ei thrwsio neu caiff falf newydd i gosod mewn llawdriniaeth agored, sy'n cynnwys torri i mewn i'r frest i gyrraedd y galon. Gall fod amser adfer hir oherwydd bod angen i'r asgwrn a wahenir wella.

Mewn llawdriniaeth twll clo, gwneir toriadau bach yn wal y frest rhwng yr asennau. Rhoddir camera a monitor drwy un o'r tyllau. Drwy wylio'r hyn sy'n digwydd ar y monitor, bydd y llawfeddyg yn cyflawni'r llawdriniaeth i drwsio'r falf feitrol gan ddefnyddio offer arbennig a osodir drwy'r tyllau eraill. Yr enw meddygol y gall eich gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ei ddefnyddio yw llawdriniaeth thoracosgopig.

Caiff llawdriniaeth agored a llawdriniaeth twll clo eu cynnal o dan anesthesia cyffredinol. Mae peiriant dargyfeirio yn gwneud gwaith y galon a'r ysgyfaint tra yr atelir y galon yn ystod y llawdriniaeth.

## Risgiau a phroblemau posibl

Mewn pedair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 1755 o gleifion, bu farw 58 o gleifion cyn eu rhyddhau o'r ysbyty. Mewn tair astudiaeth bellach yn cynnwys cyfanswm o 1177 o gleifion, bu farw 13 o gleifion o fewn mis i'r driniaeth.

Mewn pum astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 2357 o gleifion, bu'n rhaid i 98 o gleifion gael llawdriniaeth bellach i ddatrys problemau gyda gwaedu.

Y broblem fwyaf cyffredin ar ôl y driniaeth oedd curiad calon afreolaidd. Mewn astudiaeth fawr o 1059 o gleifion, datblygodd tua 10% guriad calon afreolaidd (ffibriliad atrïaidd) am y tro cyntaf ar ôl y driniaeth. Mewn tair astudiaeth bellach, yn cynnwys 671 o gleifion, datblygodd 54 o gleifion guriad calon afreolaidd.

Edrychodd yr astudiaethau ar p'un a fu'n rhaid newid llawdriniaeth twll clo yn llawdriniaeth agored hefyd. Mewn chwe astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 2440 o driniaethau, newidiwyd 66 yn driniaeth agored. Roedd un o'r astudiaethau hyn yn cynnwys 252 o gleifion a gafodd driniaeth ychydig yn wahanol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai cymhlethdodau posibl gynnwys rhwyg yn wal yr aorta, colli gwaed, trawiad ar y galon, strôc, methiant y galon, methiant yr arennau, anafiadau i'r ysgyfaint a marwolaeth.

## Rhagor o wybodaeth am falfiau'r galon â nam arnynt

Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

